# Cyflawni gwaith cynnal a chadw ar offer rigio a chodi

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datrys problemau rheng flaen ar systemau awtomateiddio. Mae'n ymwneud â chyflawni gweithgareddau cynnal a chadw cynlluniedig ar offer rigio a chodi, yn unol â'r gweithdrefnau cymeradwy, y gofynion iechyd a diogelwch a'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER). Bydd gofyn ichi gynnal a chadw ystod o offer rigio/codi megis craeniau, winshis, cyfarpar codi trydanol, dyfeisiau codi, rhaffau ffibr a gwifren, offer tynnu ac offer rigio, gan gynnwys blociau, dolennau a sgriwiau potel.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dilyn y rhaglenni cynnal a chadw perthnasol er mwyn cyflawni'r gwaith priodol
2. cyflawni'r gweithgareddau cynnal a chadw rydych chi wedi eich awdurdodi i'w cyflawni
3. cyflawni'r gweithgareddau cynnal a chadw yn y drefn benodol ac ymhen yr amser y cytunwyd arno
4. adrodd am unrhyw achosion lle na ellir bodloni'r gweithgareddau cynnal a chadw'n gyfan gwbl neu lle mae diffygion wedi'u nodi y tu hwnt i'r amserlen a gynlluniwyd
5. cwblhau cofnodion cynnal a chadw perthnasol yn gywir a'u rhannu gyda'r unigolyn priodol
6. cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn unol â'r arferion gweithio diogel a'r gweithdrefnau cymeradwy

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion iechyd a diogelwch yr ardal lle bydd gofyn ichi gyflawni'r gweithgarwch cynnal a chadw, a'r cyfrifoldeb arnoch chi ynghlwm â hynny
2. dealltwriaeth o'r Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP) ynghylch defnyddio offer codi yn ddiogel, a'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER)
3. y gweithdrefnau awdurdodi cynnal a chadw sy'n berthnasol i gynnal a chadw'r offer rigio a chodi
4. y rhagofalon iechyd a diogelwch penodol dylid eu rhoi ar waith yn ystod y gweithgareddau cynnal a chadw, a'u heffaith ar bobl eraill
5. y peryglon sy'n gysylltiedig â chyflawni gweithgareddau cynnal a chadw ar offer rigio a chodi a sut mae modd eu lleihau
6. pwysigrwydd gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod y broses cynnal a chadw
7. sut i gaffael a dehongli manylebau, llawlyfrau gwneuthurwyr a dogfennau angenrheidiol eraill yn ystod y broses cynnal a chadw
8. y weithdrefn ar gyfer caffael rhannau newydd, deunyddiau a nwyddau traul eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw
9. polisi'r cwmni ynghylch atgyweirio / gosod cydrannau newydd yn ystod y broses cynnal a chadw
10. y gofynion penodol ar gyfer cynnal a chadw offer rigio a chodi, a'r dulliau cynnal a chadw a ddefnyddir
11. yr ystod ac agweddau o'r offer codi sydd angen eu cynnal a'u cadw
12. yr offer / ategolion rigio / codi sydd angen eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw
13. y dulliau o wirio bod y cydrannau yn addas i'r pwrpas, a sut i nodi diffygion a nodweddion o dreulio
14. yr egwyddorion sylfaenol o ran sut mae'r offer yn gweithio, diben gweithio unedau / cydrannau unigol a sut maen nhw'n rhyngweithio
15. y gweithdrefnau a'r mesurau atal caiff eu gweithredu er mwyn lleihau methiant offer a lleihau'r risg o unrhyw ddamweiniau
16. sut i gofnodi gwaith cynnal a chadw offer rigio a chodi, a sut i gwblhau'r dogfennau priodol
17. sut i drin a storio offer rigio a chodi'n gywir, a sut i gyflawni gwaith cynnal a chadw gofalu a rheoli yn ystod storio
18. y problemau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r offer rigio a chodi, a sut mae

modd eu goresgyn

Cyflawni gwaith cynnal a chadw ar offer rigio a chodi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Creative & Cultural Skills |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ebr 2011 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Ebr 2016 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSAU27 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Artistig a Llenyddol, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Peirianneg, Crefftau Trydanol |
| **Cyfres/Set** | Digwyddiadau Byw, Theatr Dechnegol a Pherfformiadau Byw (Awtomateiddio) |
| **Geiriau Allweddol** | Theatr Dechnegol; Digwyddiadau Byw; Perfformiadau Byw; Arddangosfeydd; Awtomateiddio; Systemau Awtomateiddio; Arddangosfeydd; |